



2.00pm, Dydd Iau 15 Gorffennaf 2021  
Cyfarfod rhithwir

## COFNODION

Yn bresennol	
Enw	Sefydliad
Barry Liles (Cadeirydd)	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Y Cyngorydd Emlyn Dole	Cyngor Sir Caerfyrddin
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Prif Arolygydd Shaun Bowen	Heddlu Dyfed–Powys
Ruth Mullen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kevin Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Y Cyngorydd Elwyn Williams	Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Ros Jervis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Huw Thomas	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Andrew Charles	Llywodraeth Cymru
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr

Hefyd yn bresennol	
Enw	Sefydliad
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Phillips	Cyngor Sir Caerfyrddin
Jason Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin
Sharon Burford	Cyngor Sir Caerfyrddin
Richard Reynolds	Cyngor Sir Caerfyrddin
Gareth Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin
Ceri Jenkins	Cyngor Sir Caerfyrddin

### 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Barry Liles, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod rhithwir a chyflwynwyd yr aelod newydd, y Cyngorydd Elwyn Williams, a'r gwesteion.

Ymddiheuriadau	
Enw	Sefydliad
Maria Battle	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Rhian Dawson	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Uwch-arolygydd Gary Phillips	Heddlu Dyfed–Powys
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Christine Harley	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Martyn Palfreman	Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru

## 2. Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin

Rhoddodd Jason Jones, Pennaeth Adfywio, gyflwyniad ar y gwaith i gynorthwyo adferiad economaidd yn y sir.

Cyflwynwyd adroddiad ar effaith Covid ar fusnesau Sir Gaerfyrddin i Fwrdd Gweithredol y Cyngor ym mis Mehefin 2020. Sefydlwyd dau grŵp – Grŵp Adfer Busnesau a'r Economi (mewnol) a Grŵp Cynghori Busnesau (allanol). Roedd canlyniad yr adolygiad annibynnol dilynol gan ymgynghorwyr yn gadarnhaol.

Pwyntiau allweddol y cyfeiriwyd atynt:

- Mae amcanestyniadau'n dangos na fydd Gwerth Ychwanegol Gros na Chyflogaeth yn debygol o wella i'r lefelau cyn y pandemig o fewn tair blynedd heb ymyrraeth.
- Rhoddwyd trosolwg ar yr 11 thema – seilwaith cyfalaf; cymorth busnes; economi canol trefi; caffael; cynllunio; yr economi wledig; cymunedau; cysylltedd digidol; sgiliau; twristiaeth a digwyddiadau; asedau tir.
- Nod y cynllun cyflawni yw cefnogi 6,500 o fusnesau, creu 2,000 o swyddi, gwella sgiliau a chymwysterau 750 o unigolion, helpu 1,000 o unigolion i ddychwelyd i gyflogaeth, cynyddu gwariant caffael lleol £20 miliwn, buddsoddiad o £10 miliwn mewn cysylltedd digidol a mynediad at fand eang cyflym iawn ar gyfer 95% o safleoedd.
- Edrych ar strategaeth arloesi sy'n canolbwyntio ar gaffael, iechyd a llesiant, gwybodaeth ddigidol, newid yn yr hinsawdd ac adferiad gwyrdd. Mae Prifysgol Caerdydd yn cynorthwyo gyda'r gwaith hwn a bydd hefyd yn cynnwys ymgysylltu â charfanau rhanddeiliaid y gwahoddwyd y BGC i gymryd rhan ynddynt.
- Cyfleoedd cyllido yn y dyfodol – gwerthfawrogwyd cefnogaeth flaenorol gan y BGC a'r gobaithe yw y bydd yn parhau.
- Ffyrdd Gwell o Weithio - Yn ogystal â'r Grŵp Eiddo sy'n edrych ar asedau, gellid cynnwys tir hefyd mewn map data, gan greu canolfannau ar gyfer gweithio ystwyth, man cydweithredol ar gyfer y sector cyhoeddus a chyfleoedd profi masnachu ar gyfer masnachwyr annibynnol/marchnad fwyd ac ati.

Cymeradwywyd y cais i gymryd rhan yn y Grŵp Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a gwnaed cais am adborth rheolaidd ar gynnydd.

- Rhagwelir y bydd y 10 tref yn gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr oherwydd gweithio ystwyth. Bydd ffocws hefyd ar lety canol tref yn y prif drefi, o bosibl drwy brynu adeiladau canol tref.
- Caiff amcanion y rhaglen gaffael eu cyfleu i'r gwahanol sectorau er mwyn galluogi arallgyfeirio i sicrhau cadwyn gyflenwi leol.

Dywedodd Huwel Manley fod gan CNC ystâd fawr yn Sir Gaerfyrddin ac y byddai'n croesawu ymgysylltu ynghylch ffyrdd posibl o gyflawni amcanion ehangach.

### GWEITHREDU

Adborth rheolaidd ar y cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Adfer Economaidd i'w roi i'r BGC.	Jason Jones
---	-------------

Cysylltu â Huwel Manley ynghylch ffyrdd posibl o gyflawni amcanion ehangach.	Jason Jones
Sicrhau bod y BGC yn ymgysylltu fel carfan rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Strategaeth Arloesi.	Jason Jones
Trefnu diweddariad ar adborth y Gronfa Adfywio Cymunedol mewn cyfarfod yn y dyfodol.	Tîm Cefnogi'r BGC

### 3. Y Diweddaraŵ am Brosiect Pentre Awel Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Rhoddodd Sharon Burford, Rheolwr Prosiect, a Richard Reynolds, Swyddog Prosiect, gyflwyniad ar Bentre Awel, sy'n brosiect gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd gan y safle, sy'n cwmpasu 83 erw o dir, bedwar parth a mannau gwyrdd â'r potensial ar gyfer rhagnodi cymdeithasol:

1. Y Fargen Ddinesig a Hamdden
2. Tai a Byw â Chymorth/Gofal Preswyl
3. Byw â Chymorth ac Ehangu Busnesau
4. Gwesty

Y prif nod yw cael safle sy'n hygyrch i bawb ac ar gyfer pob cenhedlaeth. Mae'r ffocws hyd yma wedi bod ar barth 1 sy'n elwa o £80 miliwn o fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus – £40 miliwn gan Raglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe i gyllido'r cydrannau busnes, addysg, ymchwil ac iechyd; rhaglen gyfalaf CSC gwerth £27 miliwn i gyllido cyfleusterau hamdden newydd a £15 miliwn tuag at seilwaith ar gyfer y safle, h.y. llwybrau troed a llwybrau beicio, amgylchfyd cyhoeddus, tirlunio a'r prif faes parcio. Bydd parth 1 yn eiddo i'r Awdurdod ac yn cael ei weithredu ganddo a chafodd y Cynllun Busnes ei gymeradwyo'n ffurfiol ym mis Mawrth. Rhoddwyd trosolwg o'i gynllun a ddatblygwyd ar ôl ymgysylltu â nifer o randdeiliaid.

Datblygwyd continwmm o addysg, sgiliau a hyfforddiant i annog pobl i ddychwelyd i addysg, sgiliau a hyfforddiant. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant sydd ar gael yn ymwneud ag iechyd a gofal ond mae hefyd yn cynnwys adeiladu, gwasanaethau cymorth, megis hyfforddiant gweinyddol a derbynfa, a hyfforddiant digidol. Mae darparwyr ar waith ar gyfer pob elfen yn ogystal â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd wedi'i lofnodi gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Coleg Sir Gâr, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd.

Bydd canolfan darpariaeth glinigol ac ymchwil glinigol yn cefnogi'r newid tuag at ofal yn y gymuned. Fe'i cynlluniwyd i osod myfyrwyr a hyfforddeion mewn lleoliad clinigol a gwella hynny. Mae'r broses o gaffael parth 1 wedi mynd allan i dendr a bydd yn cau'r wythnos nesaf.

Cydnabyddir mai penderfynyddion ehangach llesiant yw iechyd, creu swyddi, mynediad at wasanaethau, sgiliau, hyfforddiant a chydlyniant cymunedol. Cynhaliwyd arddangosfa gyhoeddus gyda'r gymuned leol, ac awgrymwyd gan aelodau'r BGC y dylid ailadrodd hyn er mwyn annog defnydd lleol o'r cyfleusterau. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried yr angen posibl dros yr 20-30 mlynedd nesaf ac adeiladu lleoedd a all addasu.

#### GWEITHREDU

Ystyried ffyrdd y gall Pentre Awel weithio i gymunedau lleol, busnesau lleol a'r trydydd sector.	Pawb
--	------

#### 4. Diweddariad ar Brosiect Seilwaith Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Rhodddwyd cyflwyniad gan Gareth Jones, Rheolwr y Rhaglen Ddigidol, ar y datblygiadau diweddaraf. Y prif nod o ran y cysylltedd yw cyflymderau sy'n uwch na 1000mbps, a rhoddir blaenoriaeth i'r rhai nad oes ganddynt fand eang cyflym iawn ar hyn o bryd.

Mae meincnod Sir Gaerfyrddin yn dda iawn o gymharu ag awdurdodau gwledig eraill o ran buddsoddiad masnachol mewn gosod ffibr. Sicrhawyd buddsoddiad Cyflymu Cymru 2 gyda £9.2 miliwn i gysylltu 8,600 o'r safleoedd sydd â'r gwasanaeth gwaethaf ar draws Dinas-ranbarth Bae Abertawe; 3,300 yn Sir Gaerfyrddin. Mae pedwar mast ffonau symudol newydd, neu bump o bosibl, yn cael eu hadeiladu yn rhannau mwyaf gwledig Sir Gaerfyrddin ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi safleoedd. Mae ffonau symudol yn ddewis amgen dilys yn lle band eang. Ar hyn o bryd mae deg Prosiect Cymunedol Cynllun Talebau Gigabit ar waith ac mae eraill ar y gweill. Mae saith ohonynt gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn aros am gymeradwyaeth. Byddant yn defnyddio'r cynllun talebau i drafod gyda chyflenwyr i gael gwell band eang – ar hyn o bryd mae pedwar cyflenwr yn weithgar yn y sir. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar y bydd yn ychwanegu at y cynllun.

Mae'r prosiect wedi'i gymeradwyo a'i gytuno gan bob parti ac mae'r trefniadau llywodraethu seilwaith digidol rhanbarthol ar waith. Mae hysbysebion wedi'u cyhoeddi ar gyfer swydd Rheolwr y Prosiect, adnoddau ar gyfer pob awdurdod lleol ac Ymgynghorydd Arbenigol.

Buddsoddiad Rhanbarthol Sylweddol:-

- £3.5 miliwn gan bartneriaid rhanbarthol, y prif awdurdod lleol
- £9.2 miliwn o gyllid Cyflymu Cymru, sy'n effeithio ar 3,300 o eiddo yn Sir Gaerfyrddin
- £290,000 Hwb Cysylltedd Gigabit Gwledig y DCMS
- £500,000 ar gyfer prosiectau band eang cymunedol
- £400,000 ar gyfer 'Rhyngrwyd Pethau' di-wifr mynediad agored

Cynhelir gweithdai yn ystod y misoedd nesaf a gwahoddir partneriaid/rhanddeiliaid. Cafwyd sgwrs fer ar y Rhyngrwyd Pethau a chytunwyd y dylid rhoi cyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

GWEITHREDU	
Rhoi manylion cysylltiadau marchnata a'r cyfryngau i Gareth Jones.	Pawb
Gwahodd aelodau/cysylltiadau'r BGC i amrywiol Weithdai'r Prosiect Digidol.	Gareth Jones
Trafod rhagor o gyfleoedd cynhwysiant digidol a'r Rhyngrwyd Pethau gyda chydweithwyr yn y bwrdd iechyd.	Huw Thomas a Gareth Jones
Cyflwyniad ar y Rhyngrwyd Pethau i'w roi mewn cyfarfod yn y dyfodol.	Tîm Cefnogi'r BGC
Cysylltu â phartneriaid y BGC i fanteisio ar asedau ar gyfer rhwydwaith y Rhyngrwyd Pethau a'r seilwaith.	Gareth Jones
Bydd cyflwyniadau yn cael eu dosbarthu i aelodau'r BGC.	Tîm Cefnogi'r BGC

#### 5. Cofnodion a Materion yn Codi

4 Mai 2021

Derbyniwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Cofnod o'r Camau Gweithredu

Rhodddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.

## 6. Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin - y Wybodaeth Ddiweddaraf

Cronfa Her yr Economi Sylfaenol - Prosiect Caffael Bwyd y Sector Cyhoeddus

Er i'r cyllid ddod i ben ddiwedd mis Mawrth, mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â chaffael. Mae hyn yn rhan allweddol o'r Cynllun Adfer Economaidd.

O ran yr elfen fwyd, mae Gwyneth Ayers yn cymryd rhan mewn prosiectau amrywiol, yn y sector cyhoeddus a'r gymuned, i ddatblygu'r gadwyn fwyd leol i sicrhau bod prosiectau'n cydfynd â'i gilydd. Mae rhai ceisiadau posibl am gyllid o ran dilyniant, sy'n edrych ar gydweithio yn y sector cynnyrch, yn benodol. Rhoddir diweddariad pan fydd yn briodol.

Mae Rhwydwaith Bwyd Sir Gaerfyrddin yn brosiect cyffrous dan arweiniad Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr - CAVS. Fe'i sefydlwyd a daeth â rhanddeiliaid yn y gymuned at ei gilydd, e.e. banciau bwyd, cynlluniau tyfu cymunedol, rhandiroedd, perllannau, cynhyrchwyr, ac ati.

Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y cynllun gwaith yn y dyfodol, yn hytrach nag yn eitem ar yr agenda.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar gynnig cam 2 i ddatblygu'r gwaith ymhellach.

### Cronfa Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws - y wybodaeth ddiweddaraf

Mae gwaith gyda'r ymgynghorwyr yn dod i ben ac mae adroddiadau drafft wedi dod i law. Bydd rhai newidiadau'n cael eu gwneud cyn y byddant yn mynd i'r Grŵp Gweithredu Cysylltiadau Cryf i'w trafod.

Mae gwaith ar wirfoddoli a'r plattform dysgu yn parhau i ddatblygu, ynghyd â'r strategaeth wirfoddoli.

### Hybiau Gwasanaethau Cyhoeddus Canol Tref

Mae cyfarfodydd yn parhau ynghylch cydweithio posibl yn Llandeilo. Mae lleoliad wedi'i nodi sydd â'r potensial ar gyfer cydleoli gweithio ystwyth, cyfleoedd o ran delio â chwsmeriaid a chyfleuster allgymorth i staff sy'n gweithio yn y gymuned. Mae'r cynigion yn cael eu costio. Ceisiwyd cefnogaeth mewn egwyddor gan aelodau'r BGC ac mae pob un yn mynd â nhw i'w sefydliad ei hun i'w datblygu. Mae ymrwymiad a chefnogaeth gynyddol i wneud i hyn weithio.

### Cynllun Gwaith

(Ni thrafodwyd yr eitem hon, ond rhoddwyd nifer o ddiweddariadau yn ystod y cyfarfod).

GWEITHREDU	
Ailsefydlu cysylltiadau caffael y BGC er mwyn datblygu argymhellion adroddiad CLES.	Tîm Cefnogi'r BGC
Rhoi gwybod i Gwyneth Ayers am ddatblygiadau a phrosiectau sy'n ymwneud â'r sector bwyd ac sydd i'w datblygu mewn partneriaeth.	Pawb
Cysylltu ag Anna Jones i sicrhau cysylltiadau â CAVS ynghylch cyllid gwirfoddolwyr.	Barry Liles
Y cynnig ynghylch Hybiau Canol Tref i'w gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Medi.	Tîm Cefnogi'r BGC

## 7. Diweddariad Asesiad Llesiant

Rhodddwyd trosolwg o'r datblygiadau diweddar a gwnaed cynnydd mewn nifer o feysydd allweddol. Sefydlwyd Grŵp Arolwg Rhanbarthol i ddatblygu'r arolwg sy'n seiliedig ar y saith nod llesiant. Dylai'r arolwg fod yn fyw o ddechrau mis Awst i ddiwedd mis Medi. Cynhelir trafodaethau gyda chydweithwyr y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i sicrhau bod cyfleoedd ymgysylltu ar y cyd yn cael eu hystyried rhwng asesu poblogaeth ac asesu llesiant.

Cynllun Ymgysylltu Rhanbarthol – edrych ar gyfleoedd eraill i ymgysylltu ac mae pecyn cymorth yn cael ei ddrafftio i hwyluso trafodaethau. Bydd nifer o ddigwyddiadau i randdeiliaid yn cael eu cynnal yn y sir.

Dosbarthwyd map o'r Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Uwch, ond yr adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn sgil yr asesiad blaenorol oedd y dylai'r data fod yn fwy lleol. Awgrymwyd bod yr Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Uwch yn cael ei defnyddio fel man cychwyn ac y gellir casglu data'r arolwg o'r côd post. Bydd datblygu proffiliau cymunedol ar gyfer y chwe ardal yn cael ei ystyried wrth symud ymlaen. Yn dilyn trafodaeth ar yr Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Uwch a'r Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol, cytunwyd i ddefnyddio'r Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Uwch ond y byddai'r setiau data sydd ar gael ar lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yn cael eu nodi.

Bydd y Cydgysylltydd Prosiect Llesiant Rhanbarthol newydd yn dechrau yn ei swydd ar 2 Awst. Yn anffodus, nid oedd cais y Rhwydwaith Cydgynhyrchu a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf yn llwyddiannus. Mae'r System Wybodaeth Ddigidol, Gorwel, yn cael ei phrofi ar hyn o bryd cyn mynd yn fyw a rhoddir ystyriaeth i weld a ellir ei defnyddio ar gyfer yr asesiad llesiant. Trafodwyd amserlen yr Asesiad Llesiant - er mai mis Mai yw'r dyddiad cau, ceisir ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2022, cyn yr etholiadau llywodraeth leol.

Dywedodd Andrew Charles fod y gwaith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu cerrig milltir cenedlaethol yn edrych ar fylchau mewn dangosyddion llesiant cenedlaethol yng nghyd-destun Covid, ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol. Disgwylir i'r rhain gael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021 ond bydd ymgynghoriad yn yr hydref.

GWEITHREDU	
Nodi setiau data sydd ar gael ar Lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol.	Kate Harrop
Cylchredeg dolen i'r blog Llesiant Cenedlaethol: Dangosyddion, Cerrig Milltir a Thueddiadau <a href="https://lluniodyfodolcymru.blog.llyw.cymru/">https://lluniodyfodolcymru.blog.llyw.cymru/</a>	Tîm Cefnogi'r BGC
Llesiant Cenedlaethol: Dangosyddion, Cerrig Milltir a Thueddiadau i'w gynnwys ar agenda yn y dyfodol.	Tîm Cefnogi'r BGC

## 8. Unrhyw Fater Arall

Estynnodd Barry Liles groeso i Ros Jervis yn ôl i'r cyfarfod a diolchodd iddi hi a'i thîm am y gwaith caled a wnaed yn ystod pandemig Covid.